Babell Y Garn Gerlan Madog Nasareth Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Nasareth Madog Gerlan Y Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 21 Hydref 2012



***Aeth heuwr allan i hau***

Annwyl ffrindiau,

Nid oes yr un ddameg sy'n fwy calonogol na Dameg yr Heuwr. Mae'n stori syml ac yn hawdd iawn i'w deall. Mae'n ddameg hefyd sy'n ymdrin â phosibiliadau cynhaeaf Duw. Fe gofiwch i'r amaethwr yn y stori wasgaru'r had ymhob man ac i bob cyfeiriad, dros y llwybr, i ganol y drain, i lefydd diffaith creigiog, yn ogystal ag ar y tir da. Pe bai ffermwr yn gwneud rhywbeth tebyg heddiw byddem yn ei ystyried yn wastraffus a ffôl, yn gwbl esgeulus. Ond ym meddwl yr Iesu yr oedd angen i bawb glywed Gair Duw, nid dim ond y galon dda, sef y bobl hynny a fyddai'n derbyn y Gair yn llawen, yn ymateb i'w oblygiadau ac yn dwyn ffrwyth. Am hynny, ein cyfrifoldeb ninnau heddiw fel aelodau o'r Eglwys yw cyhoeddi'r Gair ymhobman ac i bawb, nid mewn oedfa ymhlith y ffyddloniaid yn unig, ond ar y stryd, yn y farchnad, yn y mart, ymhlith y plant yn yr ysgol a'r myfyrwyr yn y coleg, yn ogystal ag yng nghlustiau mynychwyr y dafarn leol. Rhaid i'r heuwr hau ar bob math o dir.

Wrth gwrs, hawdd iawn yw digalonni wrth weld cyflwr anaddawol y maes – yr hen lwybr caled yna, y tir creigiog a'r drain. Mae bywydau pobl mor brysur a llawn o bethau'r byd heddiw fel nad oes ganddynt amser i bethau Duw. Ceir llawer wedyn sy'n benderfynol o gau eu meddyliau a'u calonnau'n llwyr rhag derbyn y Gair. Nid yw crefydd yn golygu dim iddynt. Gwyntoedd oerion anghrediniaeth sy'n mynnu edwino a thagu'r egin grawn. Fel y mae pethau ar hyn o bryd, mae'n ymddangos na chawn ni fyth gynhaeaf! Ond peidiwn â digalonni. Pan fo'r ffermwr yn mynd allan i hau, fe ŵyr yn iawn na fydd pob hedyn yn dwyn ffrwyth, ond er hynny mae'n dal ati i weithio mewn ffydd a gobaith. Nid ydym ninnau ychwaith yn mynd i lwyddo yn ein cenhadaeth bob amser wrth guro ar ddrysau calonnau pobl, ond rhaid wrth ddyfalbarhad er gwaethaf pob anhawster a rhwystredigaeth. Wyddom ni fyth lle mae'r potensial wrth hau yr had. Ni allwn rag-weld ymhle y caiff yr hedyn ddyfnder o bridd. Wedi'r cyfan mae posibiliadau cynhaeaf Duw yn ganwaith mwy na disgwyliadau cyfyng dyn, ac efallai mai ymhen blynyddoedd i ddod y gwelir ffrwyth ein llafur.

Rwy'n cofio un o'r aelodau yn fy nghyn-ofalaeth yn sôn wrthyf un tro am goeden bêrs a dyfai yn ei ardd. Doedd dim ffrwyth wedi ymddangos arni ers blynyddoedd, os o gwbl, ac roedd yr aelod wedi dechrau anobeithio yn ei chylch. Fel perchennog y winllan yn Nameg y Ffigysbren Diffrwyth (Luc 13:6–9) ystyriai ei thorri i lawr. Ond yna, rhyw flwyddyn, beth ddigwyddodd i'r goeden? Fe gafwyd cnwd toreithiog o bêrs. Gan hynny, yn y cyswllt ysbrydol, rhaid i ninnau ystyried pryd hau a medi'r cynhaeaf, nid yn nhermau ychydig fisoedd yn unig, ond yn nhermau cyfnod hir o amser, blynyddoedd a chenedlaethau lawer. Cofiwn eiriau'r Iesu wrth ei ddisgyblion, "Yn hyn o beth y mae'r dywediad yn wir: 'Y mae un yn hau ac un arall yn medi.' Anfonais chwi i fedi cynhaeaf nad ydych wedi llafurio amdano. Eraill sydd wedi llafurio, a chwithau wedi cerdded i mewn i'w llafur." (Ioan 4:37, 38) Mae aml i genhadaeth wedi llwyddo, nid oherwydd ei gallu ei hun, ond oherwydd bod yna ddyn neu ddynes ddigon cyffredin wedi cael mwy o ddylanwad ar genedlaethau i ddod, yn hytrach nag ar ei genhedlaeth ef neu ei chenhedlaeth hi ei hun. Dyna yw breuddwyd fawr y Deyrnas – y mae iddi allu a photensial na ellir ei rag-weld.

Doed, O Dduw, O doed dy deyrnas,
    gad in weled blaen ei gwawr
yn ymledu dros y gwledydd,
    doed, O doed yr hyfryd awr:
yng nghyfiawnder gras tyrd atom,
    tyred â'th achubol ddawn,
ychwanega'n ffydd i gredu
    yn dy fuddugoliaeth lawn.

*Elwyn P. Howells*

Felly, yn nhymor y Diolchgarwch eleni, boed i ni edrych at y cynhaeaf. Dyna a'n cynnal yn y gwaith o fynd allan i hau.

Yr eiddoch yng Nghrist,

*Wyn Morris (Bugail)*

# Tudalen y Plant

## Duw sy'n rhoi

Darllenwch Mathew 6:26 i weld beth ddywedodd Iesu am fyd natur ac am y ffordd mae Duw yn rhoi'r pethau rydym eu hangen i ni. Rhifwch y siapau isod er mwyn rhoi'r adnod yn y drefn gywir.

- adar yr awyr
- Edrychwch ar
- nid ydynt yn hau
- Onid ydych chwi yn llawer
- nac yn medi
- nac yn casglu i ysguboriau
- yn eu bwydo.
- mwy gwerthfawr na hwy?
- ac eto y mae eich Tad nefol

Anfonwch y gwaith at y Gweinidog, drwy law eich athro / athrawes Ysgol Sul os dymunwch, erbyn **18 Tachwedd**.

Bydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het.

**Llongyfarchiadau i William Jones, ysgol Sul y Garn, enillydd tasg y rhifyn diwethaf.**

***Manylion Cyswllt y Gweinidog:***
***Y Parch Wyn Morris,***
***Berwynfa, Penrhyn-coch,***
***Aberystwyth, SY23 3EW***
***01970 820939***
***berwynfa@btinternet.com***

***Cyhoeddiadau'r Ofalaeth a'r Henaduriaeth***

| | |
|---|---|
| 30 Medi | Oedfa Gomisiynu Eleri Pierce Barder<br>Swyddog Gwaith Plant ac Ieuenctid<br>yng Nghapel Bethel, Aberystwyth, am 10 o'r gloch |
| 6 Hydref | Cyfarfod Blynyddol Chwiorydd yr Henaduriaeth<br>Capel Glanrhyd, Trewyddel am 2.30 o'r gloch<br>I annerch: Mrs Cynthia Saunders Davies |
| 6 Hydref | Gŵyl Gristnogol: Diwrnod i'r Brenin<br>Maes y Sioe, Llanelwedd, 10–4 p.m. |
| 14 Hydref | Oedfa Ddiolchgarwch yr Ofalaeth am 10 o'r gloch<br>dan arweiniad y Bugail yng Nghapel y Garn<br>Casgliad tuag at Beibl.net |
| 14 Tachwedd | Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro<br>Capel Seion am 1.30 o'r gloch |
| 16 Rhagfyr | Oedfa Nadolig Plant yr Ofalaeth<br>Capel y Garn am 10 o'r gloch<br>Casgliad tuag at yr ysgol Sul |
| 25 Rhagfyr | Oedfa gymun am 9 o'r gloch ar fore'r Nadolig<br>dan arweiniad y Bugail |
| 30 Rhagfyr | Oedfa'r Ofalaeth am 10 o'r gloch<br>dan arweiniad y Bugail yng Nghapel Seion |
| 31 Rhagfyr | Gwylnos yng Nghapel y Garn am 11.30 p.m.<br>dan arweiniad y Bugail |




***Swyddog Gwaith Plant ac Ieuenctid Gogledd Ceredigion***

Dyma ddechrau tymor newydd, ac yn dilyn gwyliau'r haf mae pethau wedi prysuro yn y swyddfa, a dwi'n edrych ymlaen yn arw at gychwyn y clybiau a'r gwaith yn yr ysgolion a'r capeli, a chael dod i adnabod nifer ohonoch. Yn bersonol, dwi'n gweld gwerth anferth mewn rhannu Iesu gyda phlant a phobl ifanc yn ystod y clybiau hyn, gan ei fod Ef wedi newid fy mywyd i'n llwyr. Dwi'n cofio rhywun yn disgrifio'r profiad o ddod i gredu yn Iesu fel cael yr anrheg orau un yn y byd, ac yn amlwg, fyddech chi ddim yn cadw hynny'n dawel oddi wrth eraill. Ac fel y dywedodd Iesu ei hun, "Gadewch i'r plant bach ddod ata i. Peidiwch â'u rhwystro, am mai rhai fel nhw sy'n derbyn teyrnasiad yr Un nefol." (Mathew 19:14) A pha well ffordd sydd yna o gychwyn bywyd na gyda Brenin a Chreawdwr y Byd yn gofalu amdanoch drwy gydol yr amser. Fy ngweddi i ar gyfer y flwyddyn yma yw y byddwch chwithau yn dod i brofi cariad anhygoel Iesu yn eich bywydau ac y byddwn oll yn dysgu mwy am ein Creawdwr. Edrychaf ymlaen yn arw i gwrdd a chi.

*Eleri Barder*

## CIC
## gweithgareddau'r hydref 2012

**Nos Iau 11 Hydref**
**Noson Agoriadol gydag Eleri**
Festri'r Garn 19.00 + parti

**Nos Iau 25 Hydref**
**Noson Ddringo**
Wal Ddringo'r Gampfa,
Campws Pen-glais,
Prifysgol Aberystwyth
19.00

**Nos Iau 8 Tachwedd**
**Noson Gemau**
Festri'r Garn 19.00

**Nos Iau 22 Tachwedd**
**Criw Coleg y Bala**
Festri'r Garn 19.00

**Nos Iau 6 Rhagfyr**
**Creu Cardiau**
gyda Fal Jenkins
Festri'r Garn 19.00

**Nos Iau 20 Rhagfyr**
**Noson Garolau**
Afallen Deg, Bow St
18.00
Tregerddan 18.45

## Cydgynulliad (13 Hydref)

Bydd 13 Hydref yn ddiwrnod pwysig yn hanes eciwmeniaeth yng Nghymru. Ar y dydd Sadwrn hwnnw, bydd aelodau'r Eglwysi Cyfamodol yn ymgynnull yn y Neuadd Fawr, Aberystwyth, rhwng 10.45 a 4.30 o'r gloch, ar gyfer Cydgynulliad arbennig.

Mae croeso cynnes i bawb yn y Cydgynulliad, sef diwrnod i ddathlu gwaith yr Eglwysi Cyfamodol ac i gyflwyno argymhellion ar sut i symud ymlaen gydag eciwmeniaeth yng Nghymru.

Y prif siaradwr fydd y Parchedig Ddr Olav Fykse Tveit, Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Eglwysi'r Byd. Bydd cyflwyniad dramatig 'Un Eglwys, Un Ffydd, Un Arglwydd?' yn cael ei berfformio gan Theatr Troed-y-rhiw, a daw'r diwrnod i ben gyda gweinyddu'r Cymun Bendigaid gan ddefnyddio Gwasanaeth Cymun Cyfamodol newydd.



Am ragor o wybodaeth ac i archebu tocynnau, ffoniwch Rhian Linecar ar 02920464371.

*Trip yr ysgol Sul*



I ddathlu penllanw blwyddyn arall o weithgaredd cynhaliwyd Trip yr Ysgol Sul ar ddydd Sul y 15fed o Orffennaf. A bu’n fenter wahanol eleni wrth i ni a chyfeillion ysgol Sul y Noddfa fentro gwthio’r cwch i’r dŵr ar y cyd. A’r cwch a aeth i’r dŵr yng ngwir ystyr y gair.

Ar ddiwrnod anarferol o braf, o gofio’r haf a’i law cyson, aeth criw o 41 ohonom i Geinewydd ar gyfer taith cwch ym mae Ceredigion gyda gobaith o weld dolffin neu lamhidyddion. Daliwyd y cwch am 11.00 yn yr harbwr ac aeth y Capten â ni tua’r de a’n swyno â’i sylwebaeth (ffeithiol yn fwy na ffraeth, efallai). Clywsom am adar arbennig y môr a’r clogwyni ac ymdrechion i’w gwarchod, olion diwydiant y gorffennol a hanesion ambell smyglwr a arferai fanteisio ar y traethau unig a’r ogofâu cudd. Teg dweud fod dawn adrodd ei sgript yn fwy llyfn na’r tonnau a doeth fu’r rhai a gofiodd gymryd eu Sea Legs ymlaen llaw. Ac yn anffodus hefyd ni welwyd na dolffin na llamhidydd yn ystod ein taith. Er hynny, bu’n brofiad difyr iawn gyda digon i’w weld a’i werthfawrogi o edrych ar y lan o gefn y cwch.



O ddychwelyd i'r harbwr, a stumogau'n llonyddu, aeth pawb at ei ginio – yn sglodion neu'n bicnic – cyn glanio ar y traeth er mwyn gwlychu'n traed a chwarae yn y tywod. Bu'n ddigon hamddenol tan i'r bobl ifanc gofio addewidion mawr y byddem yn chwarae gêm o Dodgeball. Nid dyma'r lle i egluro'r rheolau ond fe allwch ddychmygu'n hawdd fod osgoi cael eich taro gan bêl yn elfen reit ganolog i'r gamp. Rhannwyd yn ddau dîm – y merched yn erbyn y bechgyn – ac ar ôl gornest agos a chyffrous y merched a orfu! Cyffro arall y prynhawn oedd ymdrechion arwrol un dyn anhysbys pan welodd Teleri Pwllglas mewn helynt, wel, helynt un o'i hesgidiau Crock, hynny yw, a oedd wedi penderfynu neidio i'r môr a nofio am Iwerddon. I'r adwy fe ddaeth gŵr cydnerth dieithr mewn crys rygbi a ruthrodd i'r dŵr a nofio fel morlo coch i achub yr esgid. Ac fe gafodd gymeradwyaeth wresog ac uchel am ei ymdrechion.

Coron i'r diwrnod dymunol hwn oedd galw am hufen iâ yn un o'r siopau niferus cyn llusgo'n traed blinedig at y meysydd parcio a mynd tuag adref.

Trip hwyliog a lle bu'n bleser i ni weld criw hoffus iawn o blant bach a mawr yn mwynhau gyda'i gilydd ger y môr.

*Rhodri Llwyd Morgan*

*__Cystadleuaeth Farddoniaeth__*

Llongyfarchiadau i Rhys Tanat Morgan, aelod o ysgol Sul y Garn, am gipio’r ail wobr yn y categori oedran 7–11 oed mewn cystadleuaeth a gynhaliwyd gan gwmni siocled Divine, mewn partneriaeth â Chymorth Cristnogol. Y beirniad oedd Eurig Salisbury, Bardd Plant Cymru, a rhoddodd ganmoliaeth mawr i gerdd Rhys am ‘gerdd ddengar’ sy’n mynd ‘â ni ar siwrne o amgylch y byd, gan brofi blasau newydd lle bynnag yr awn’.




Mi godaf yn y bore
i agor fy hen siop,
tybed fydda i
yn gwerthu loli-pop?

Ond siocled yw fy musnes
ac arbrofi a wna i
i ddod o hyd i’r blasau
mwyaf blasus yn y byd.

Rhaid cael siâp i ddechrau
a glob yw’n ffefryn i
a blasau dirifedi
i’n planed hynod ni.

I’r Affrig flas casafa
ac Ewrop siocled llaeth,
yn Asia darnau sbeislyd –
amrywiaeth ar ein taith.

I Oceania barbyciw,
yn Ne’r Amerig coco;
rhof siwgr candi i’r hen lanks
a dyna bawb ’di plesio.

A’r gwaith o greu ’di gorffen
a gwerthu wrth y fil,
rhaid rhannu’r pres â ffermwyr tlawd
er lles pob gwlad a hil.



¡VIVA!
GUATEMALA

Apêl Eglwys Bresbyteraidd Cymru 2012


***Apêl Guatemala***

Cynhaliwyd oedfa haf yr ofalaeth fore Sul, 8 Gorffennaf, yng Nghapel y Garn, dan arweiniad ein Gweinidog.

Croesawyd Mari Fflur, Pennaeth Cyfathrebu Eglwys Bresbyteraidd Cymru, atom a chafwyd cyflwyniad ganddi i gefndir Apêl Guatemala. Adroddodd hanes ei hymweliad â'r wlad ac eglurodd gymaint o wahaniaeth y byddai ein cyfraniadau yn ei wneud i'r rhai sy'n byw mewn amgylchiadau truenus yn y wlad.

Gwnaed casgliad tuag at yr apêl a bydd y swm o £162 yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa ar ran yr ofalaeth, yn ychwanegol at gyfraniadau'r eglwysi unigol.

### *Astudiaeth Feiblaidd yr Ofalaeth*




Bydd yr astudiaeth feiblaidd yn ailddechrau bnawn Mawrth, 2 Hydref, dan arweiniad y Bugail. Bydd y grŵp yn parhau â'i daith gronolegol drwy'r Beibl yn dilyn y gyfrol *Drwy'r Beibl, Drwy'r Flwyddyn*, sef addasiad Meirion Morris o gampwaith John Stott, *Through the Bible, Through the Year: daily reflections from Genesis to Revelation*. Paratowyd cydymaith pwrpasol i'r gyfrol gan Huw John Hughes.

Mae croeso cynnes i chi ymuno â'r dosbarth a gynhelir yn wythnosol, gan amlaf am 2 o'r gloch ar brynhawn dydd Mawrth yn festri Capel y Garn.

### *Grŵp Help Llaw*

Croeso cynnes i chi ymuno â'r Grŵp Help Llaw, sy'n cwrdd bob prynhawn Mercher (oddieithr dydd Mercher cyntaf y mis) a hynny am 2.30 p.m. yn Festri'r Garn. Dewch i fwynhau sgwrs a phaned ac i ymuno mewn gweithgaredd, os dymunwch hynny.

Ar hyn o bryd, rydym yn casglu hen sbectolau ar gyfer Vision Aid Overseas. Daeth ymgyrch y caeadau plastig i ben, ond rydym yn dal i gasglu hen stampiau ac wedi cyflwyno dros 45,000 o stampiau i Oxfam ers dechrau'r flwyddyn.

Os ydych am lenwi bocs sgidiau ar gyfer Operation Christmas Child 2012, mae taflenni gwybodaeth gan Eddie a Bethan. Gofynnwn yn garedig i chi ddod â'r bocsys i mewn erbyn **18 Tachwedd**.

Diolch am bob cyfraniad a chefnogaeth.

Shân Hayward<br>(828268)

Bethan Jones<br>(611502)

## Hydref

*Blaenor y Mis: Eddie T Jenkins*

*I gyfarch wrth y drysau: D Bryn Lloyd / D. Elystan-Morgan*

3 Cymdeithas Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch
Cwrdd Diolchgarwch dan ofal y Barch Judith Morris

**7** Oedfa'r bore (Noddfa): Parch Richard Lewis
Oedfa'r hwyr (Y Garn): Parch Ddr John Tudno Williams

12 Gwasanaeth Diolchgarwch Bethlehem, Llandre,
am 7 o'r gloch
Pregethir gan y Parch Wiliam Owen, Caerfarchell

**14** *Oedfa Ddiolchgarwch yr Ofalaeth*
dan arweiniad y Bugail
Capel y Garn am 10 o'r gloch
Casgliad tuag at Beibl.net

19 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Dwyn i Gof' – Parch W J Edwards

**21** Bugail
Cymun yn oedfa'r bore

**28** Parch J E Wynne Davies

**Yr Ysgol Sul**

Yn dilyn cyd-bwyllgor a gynhaliwyd rhwng ysgolion Sul y Garn a'r Noddfa ddechrau Medi, dymuniad rhieni'r ddwy ysgol Sul yw cynyddu'r trefniant i gynnal ysgol Sul unedig. Penderfyniad y cyd-bwyllgor oedd cynnal yr ysgol Sul ym mis Medi yng Nghapel y Garn, mis Hydref yn Noddfa, mis Tachwedd yn y Garn, ac yna fe fydd y ddwy ysgol Sul yn cyfarfod ar wahân ym mis Rhagfyr er mwyn paratoi'r plant ar gyfer yr Oedfa Nadolig yn y ddau gapel.

Croeso cynnes i unrhyw blentyn neu berson ifanc ymuno!

Llongyfarchiadau calonnog:

i Lowri ac Owain Schiavone ar enedigaeth mab bach, Moi Tudur, ar 22 Gorffennaf, brawd i Llew ac ŵyr i Delyth, Rhydyrysgaw;

i Meleri a Matthew ar eu priodas yng Nghapel y Garn ar 1 Medi;

i'r bobl ifanc a fu'n llwyddiannus mewn amrywiol arholiadau yn ystod yr haf, a phob dymuniad da iddynt yn y dyfodol.

## Apêl Guatemala
## Eglwys Bresbyteraidd Cymru 2012

*Nod yr apêl yw gofyn i'n haelodau gyfrannu neu gasglu **£1 y mis,** sef o leiaf gyfanswm o **£12 yr aelod** dros y flwyddyn.*

*£1 – pris un baned o de*

*Pris un Western Mail ar y Sadwrn*

*Pris un bar mawr o siocled!*

Diolch i'r rhai sydd eisoes wedi cyfrannu at yr apêl uchod mewn amrywiol ffyrdd — yn y Cinio Bara a Chaws ym mis Mai a'r Swper Haf Bach Mihangel yn ddiweddar, yn ogystal â'r rhoddion a dderbyniwyd.

Bydd yr apêl yn parhau tan **ddiwedd Tachwedd**, ac os nad ydych wedi cael cyfle i gyfrannu neu am roi cyfraniad pellach tuag at y gronfa, cysylltwch â Mrs Mary Thomas, y trysorydd, neu ag un o'r swyddogion.

Os hoffech ychwanegu at werth eich rhodd trwy sicrhau ad-daliad treth incwm, mae ffurflenni Rhodd Cymorth hefyd ar gael gan y Trysorydd.

Diolch am bob haelioni.

## Tachwedd

*Blaenor y Mis: Marian B Hughes*

*I gyfarch wrth y drysau: Eddie T Jenkins / Alan Wynne Jones*

| | |
|---|---|
| **4** | Bugail<br>Parch Cen Llwyd |
| 7 | Cymdeithas Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch<br>Gŵr gwadd: Mr Gerald Morgan, Aberystwyth |
| **11** | Parch Adrian Williams |
| 16 | Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch<br>'Tro ar Waith' – Sian (Caergywydd), Carwyn a Seiriol |
| **18** | Bugail<br>Bore: oedfa gymun; hwyr: oedfa ym Methlehem, Llandre |
| 24 | Ffair y Capel dan ofal y Chwiorydd<br>Festri'r Garn 10–12 o'r gloch |
| **25** | Mr Arwyn Pierce |

***Apêl Llifogydd Ceredigion***

Dymuna'r Swyddogion ddiolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd tuag at yr apêl uchod. Casglwyd y swm o £756 yn yr amlenni a ddosbarthwyd i aelodau'r Garn ac fe godwyd dros £1,000 yn y Noson Goffi a gynhaliwyd ar y cyd â Chapel Noddfa, Merched y Wawr Rhydypennau a Sefydliad y Merched yn Neuadd Rhydypennau.

Diolch i chi am eich haelioni.

## Rhagfyr

*Blaenor y Mis: Vernon Jones*

*I gyfarch wrth y drysau: Dewi G Hughes / Marian B Hughes*

| | |
|---|---|
| **2** | Oedfa'r bore (Noddfa): Parch Richard Lewis<br>Oedfa'r hwyr (Y Garn): Parch Judith Morris |
| 5 | Cyfarfod Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch<br>Prynhawn yn 'Naws y Nadolig' |
| **9** | Oedfa gymun dan arweiniad y Bugail<br>Parch Cen Llwyd |
| 14 | Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch<br>'Dathlu'r Nadolig' dan ofal Ann ac Alan Wynne Jones |
| **16** | Oedfa Nadolig Plant yr Ofalaeth<br>Capel y Garn am 10 o'r gloch<br>Casgliad tuag at yr ysgol Sul |
| **23** | Parch J E Wynne Davies<br>Bugail |
| 25 | Oedfa gymun ar fore'r Nadolig am 9 o'r gloch<br>dan arweiniad y Bugail |
| **30** | Oedfa'r ofalaeth dan arweiniad y Bugail<br>Capel Seion am 10 o'r gloch |
| 31 | Gwylnos i groesawu'r Flwyddyn Newydd<br>dan arweiniad y Bugail am 11.30 p.m. |



Meleri Wyn, Llanfihangel Genau'r Glyn, a Matthew Flint, Uttoxeter, ar ddydd eu priodas yng Nghapel y Garn ar 1 Medi. Mae Meleri ar staff S4C a Matt yn ddylunydd gyda Llywodraeth Cymru. Byddant yn symud yn fuan i'w cartref newydd yn yr Eglwys Newydd yng Nghaerdydd. Dymuniadau da i'r ddau.



Bedydd Lois Martha, merch fach Steffan ac Elen, Mynydd Gorddu, ac wyres Rhian Huws, fore Sul, 9 Medi, yng Nghapel y Garn

# Taith Ann Griffiths (Rhan 2)

Roedd yr haul yn ceisio torri trwy'r cymylau wrth i ryw ddeunaw o aelodau capeli gogledd y sir ymgynnull tu allan i Ganolfan John Hughes ym Mhontrobert fore Sadwrn, 30 Mehefin. Cyn cychwyn ar y daith bedol o saith milltir, cawsom groeso cynnes iawn i'r hen gapel gan y ceidwad, Nia Rhosier, a sgwrs ddiddorol am hanes yr achos a'r adeilad, a'i amcanion fel canolfan ffydd yn yr unfed ganrif ar hugain.

Aethom i lawr i bentref Pontrobert ei hun a dilyn glan ddeheuol afon Fyrnwy at Ddolanog. Ar yr ochr yma o'r afon rydym ar Lwybr Glyndŵr, llwybr cenedlaethol o Drefyclo i Fachynlleth ac yn ôl i'r Trallwng, ond wrth ei gerdded i Ddolanog a dychwelyd ar hyd Llwybr Ann Griffiths ar ochr gogleddol afon Fyrnwy, mae'n ffurfio cylch hwylus yn ôl at y ceir heb orfod mynd yn ôl yr un ffordd.

Roedd rhaid taro i mewn i Gapel Coffa Ann Griffiths yn Nolanog, cyn crwydro'n hamddenol drwy'r dolydd a'r coed at ein man cychwyn.

Ni bydd haf 2012 yn cael ei chofio fel blwyddyn ddelfrydol i gerddwyr ac nid arbedwyd ni rhag ambell gawod, ond nid amharodd y tywydd ar ein mwynhad o'r daith.

Llawer o ddiolch i Carys a Dilwyn Jones am trefnu taith mor brydferth a diddorol.

*John Leeding*




Penddelw Ann Griffiths
yn y Capel Coffa, Dolanog





Pulpud John Hughes,
Pontrobert



Y cerddwyr ar eu taith

## Capel Seion – Dathlu

Fore Sul, 24 Mehefin, cynhaliwyd oedfa hanesyddol yn Seion i goffáu cyn-weinidog yr eglwys, sef y Parchedig D. J. Evans, BA, BD, a fu'n gwenidogaethu yn Seion am bump a deugain o flynyddoedd, 1916–61. Brodor o'r ardal ydoedd a'i dad yn flaenor yn yr eglwys. Dadorchuddiwyd cofeb iddo gan un o aelodau'r eglwys oedd yn ei gofio, ac ef a'i derbyniodd yn aelod wedi iddi ddod o eglwys Clapham Junction, Llundain, sef Mrs Megan Lloyd, Tyncoed.

Dechreuwyd yr oedfa gan ein Gweinidog gyda darlleniadau a gweddi, ac yna cyflwynodd aelodau a ffrindiau'r eglwys, yn blant ac oedolion, raglen deyrnged iddo, yn seiliedig ar ei waith gan bwysleisio ei fod yn ŵr *o flaen ei amser* mewn sawl cyfeiriad. Paratowyd arddangosfa o ddogfennau a lluniau amdano a mawr fu'r siarad a'r cofio uwch paned wrth chwilota drwy'r adnoddau. Un arall a'i cofiai yn dda oedd Vernon Jones, a diolch yn fawr iddo am gyflwyno cwpled cofiadwy ar y llechen goffa:

Ei fywyd a'i fyd wrth fodd
Ei waredwr, lle troediodd.

Ym mhen y mis, ar 29 Gorffennaf, braint fu croesawu Beryl Hughes, Pantyperan, i Seion i gynnal oedfa i'w goffáu. Roedd Beryl Pantgwyn, fel y'i gelwir yn yr ardal, yn ei gofio'n fyw iawn. Cyflwynodd atgofion melys amdano gyda theimlad ac urddas a fyddai'n gweddu i goffadwriaeth ei chyn-weinidog.

***Diolchgarwch Seion***

Nos Lun, 15 Hydref am 7 o'r gloch

Y Prifardd, Parchedig John Gwilym Jones, Caerfyrddin

Croeso cynnes




Mrs Megan Lloyd a’r Parch Wyn Morris
yn dilyn dadorchuddio cofeb
i’r Parch D. J. Evans, Capel Seion

**Y dorch Olympaidd yng Nghapel Seion**



Fore Sul, 15 Gorffennaf, gwahoddwyd Mr William Williams a'i briod, Catherine, atom o Bishops Cleeve, ger Cheltenhan – y ddau â chysylltiadau agos â Bronnant. Bu William yn un o gludwyr y dorch pan ddaeth ar ei thaith i Aberystwyth. Pwrpas y Sul hwn oedd dathlu gwaith yr ysgol Sul am y flwyddyn. Cynhaliwyd defosiwn gan deulu Awelon cyn i William sôn am ei brofiadau yn cario'r dorch, rhai ohonynt yn eithaf teimladwy ac emosiynol iddo. Brwd fu'r holi a'r siarad am y dorch, y tynnu lluniau cyn i bawb wedyn fwynhau'r barbeciw a baratowyd gan Haydn Williams a theulu Ffoslas.

**AR WERTH:** Nifer fechan o hen feinciau festri'r Gerlan. Cynigion gorau dros £50 yr un. Cysyllter â D B Lloyd (828555).

## Pererindod Capel Seion

Yn ôl ein harfer byddwn yn pererindota ym mis Awst ac eleni paratowyd y daith gan Susan a Gareth Lloyd Hughes a Mrs Megan Lloyd. Dyffryn Aeron fu'r gyrchfan, gan gychwyn yng nghapel yr Annibynwyr yn Neuadd Lwyd. Y pererinion fu'n cyflwyno gwasanaeth ac aelodau'r eglwys yn cydaddoli â ni. Miss Marina James o'r eglwys fu'n adrodd hanes y cenhadon hynny a aeth oddi yno i Fadagasgar yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a rhyfeddu a wnaethom at ffydd a dewrder yr arloeswyr arwrol hyn yn mentro i beryglon na wyddent fawr ddim amdanynt. Mor debyg oedd yr hanes i hanes ein cenhadon ni a fentrodd i Fryniau Casia a llefydd eraill yn yr India tua'r un cyfnod.

Oddi yno ymwelsom â Fferm Organig Blaen Camel ac â Gardd Ddirgel Tŷ Glyn Aeron ger cyfleusterau preswyl ar gyfer plant ag anableddau. Gorffennwyd y daith yn siop Ji-binc, Aberaeron, lle cawsom ein croesawu i de gan Rhian, Dafydd, Swyn, Eos a Celt, a hynny'n goron hapus ar ddiwrnod braf o gymdeithasu yng nghwmni ein gilydd.

*Eglwys Bresbyteraidd Cymru – Coleg Trefeca*

Diwrnod o weddi
9 Hydref, 10–5

Penwythnos Cymorth Cristnogol
12–14 Hydref

Penwythnos y Blaenoriaid
9–11 Tachwedd



Manylion cyswllt:
ffôn: 01874 711423; ebost: colegtrefeca@ebcpcw.org.uk

### *Bugail Capel Seion*

Un o bregethwyr gogledd Ceredigion yr edrychwn ymlaen at ei ymweliadau â ni yn Rehoboth, Tre-Taliesin, pan oeddwn yn fachgen, oedd y Parchedig D. J. Evans a fu'n weinidog ar yr eglwys lle'i maged am 46 mlynedd. Roedd wedi'i eni a'i fagu ym mhentref Capel Seion, ac wedi gadael ysgol yn 12 oed bu'n dysgu crefft masiwn / saer maen gyda'i dad. Ond buan y rhoddodd heibio drin cerrig am drin pobl, ac wedi disgleirio yn ysgol ramadeg yr enwog John Phillips, Castellnewydd Emlyn, a cholegau prifysgol a diwinyddol Aberystwyth fe'i sefydlwyd yn Seion ym 1916.

Er iddo farw ym 1965 bu raid aros tan 24 Mehefin eleni cyn gosod maen yn y capel: 'I Gofio'r Parchedig D. J. Evans, BA, BD, Gweinidog Seion 1916–1961'. Cafwyd orig fendithiol wrth i blant ac oedolion gyflwyno sgript Ina Tudno Williams, oedd yn manylu ar weinidogaeth gyfoethog a mentrus y Bugail. Roedd yn briodol dwyn yr oedfa i ben gydag Elen Sarnau Fawr, nith y Parch. Ddr T. J. Davies, yn cyflwyno rhan o'i deyrnged i DJ yn ei wasanaeth coffa. Seiliodd TJ ei neges ar Philipiaid 2.15: 'Ymhlith y rhai yr ydych yn disgleirio megis goleuadau yn y byd, yn cynnal Gair y bywyd'.

'Nid cam â'r cymal fyddai dweud, "Ymhlith y rhai yr ydych yn disgleirio fel goleudai". Gellir ystyried pulpud Capel Seion yn oleudy. Credodd mewn dwyn i'r goleudy hwn danwydd o'r math gorau. Doedd fy rhieni ddim yn aelodau o'i eglwys ond cawsom ni'r plant y fraint anghymharol o fynychu Cwrdd Plant ym Mhisga, cangen o Seion, yng nghwmni criw mawr o blant a phob un â'i lyfr ysgrifennu. Bugail Seion yn rhoi nodiadau inni ar y Maes Llafur a ninnau'n copïo er mwyn paratoi at yr Arholiad Ysgrifenedig. O edrych yn ôl, roedd y nodiadau a gaem yn well na llawer a roddid mewn ysgolion uwchradd: stwff sylweddol a bwyd cry i gnoi cil arno. Gwaith caled a pharatoi manwl ar ran yr athro ymroddgar. Credodd mewn rhoi'r gorau yn y Cwrdd Plant.

'Perthynai'r Bugail i ysgol ddiwinyddol oedd o dan gwmwl, i fesur. Ond credai'r ysgol honno mewn beirniadaeth Feiblaidd a dod â phob dawn ac ysgolheictod i gloddio'r Gair ymhlith y geiriau. Ni chafodd yr ysgol honno ragorach lladmerydd na D. J. Evans. Nid dyma'r lle i drafod yn llawn yr esboniad a sgrifennodd ac a wrthodwyd gan y Cyfundeb. Un o'r pethau olaf a wneuthum gydag e oedd darllen llythyr y cyn-Brifathro Vernon Lewis (y cyntaf i gyflwyno gweithiau'r diwinydd nodedig Karl Barth i Gymru) yn begian arno i ystyried ailgyhoeddi'r esboniad am fod dybryd angen amdano ar gyfer ysgolion a cholegau hyfforddi ac nad oedd galw am newid fawr ddim arno, yn fodern 30 mlynedd ar ôl ei gyhoeddi gyntaf!'

Yr esboniad y cyfeiriodd TJ ato yw *Prif Gymeriadau'r Hen Destament* (1926). Fe'i collfarnwyd gan Cynddylan Jones ond canmol y cynnwys gwerthfawr a wnaeth Tegla Davies. Am fod y Cyfundeb, oedd wedi comisiynu'r llyfr, wedi gwrthod ei gyhoeddi, cyhoeddodd DJ ef ar ei gost ei hun a buan iawn y gwerthwyd 10,000 o gopïau! Cafodd y gwrthod sylw yn y wasg grefyddol a seciwlar yn Gymraeg a Saesneg a bu hynny o gymorth i'r gwerthiant, mae'n debyg.

Nid dyna'r tro cyntaf i Gyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd gymryd cam gwag wrth ochri gyda diwinyddion ceidwadol oherwydd derbyniodd y Parch. D. Francis Roberts, gweinidog Capel Tegid, y Bala 1929–45, ysgolhaig Hen Destament fel DJ, yr un driniaeth ym 1920 gyda'i gyfrol *Llawlyfr ar Ddysgeidiaeth y Pumllyfr*. Cafwyd ymateb ffyrnig i'r llyfr, yn enwedig yng Nghymdeithasfa'r De ym Mhont-y-gwaith, 21–3 Awst 1923. Fel hyn yr adroddir yr hanes gan R. H. Evans, fy mhrifathro yng Ngholeg y Bala gynt, yn ei Ddarlith Davies, 1969, *Datganiad Byr ar Ffydd a Buchedd*:

'Rhoesai'r Dr Cynddylan Jones rybudd o gynigiad a byddai'n galw sylw yn y Gymdeithasfa nesaf at "le priodol yr Ysgrythurau Sanctaidd a'r parch dyledus iddynt yn nysgeidiaeth y Cyfundeb" Er mai rhybudd o gynigiad ydoedd fe ganiataodd y Llywydd iddo draddodi araith hir lle y cyfeiriai heb ei enwi at yr hyn a alwai "y llyfr bach", sef gwerslyfr y Parch. D. Francis Roberts ar Ddysgeidiaeth y Pumllyfr. "Y mae'r llyfr bach wedi'i wasgaru," meddai, "a phe byddwn i'n credu y llyfr bach hwnnw fedrwn i byth bregethu yn Llyfr Genesis mwy. Y bregeth olaf yn y Sasiwn ddiweddaf, o Lyfr Genesis yr oedd, ac y maent yn dweud mai honno oedd pregeth orau'r Sasiwn (chwerthin). Prin fod angen dweud pwy oedd y pregethwr!" 'Nid rhyfedd i R. H. Evans ddweud 'fod yna berygl ar y pryd i rai gychwyn *heresy hunt* yn y Cyfundeb'. Fel yn hanes D. J. Evans, cyhoeddodd Francis Roberts y llyfr ar ei gost ei hun ac fe werthodd wrth y miloedd, fel un DJ.

Yn ôl i orffen at oedfa dadorchuddio cofeb D. J. Evans, ac at ran olaf teyrnged fy nghyfaill a'm tad yn y ffydd, T. J. Davies, iddo, sy'n her i bawb ohonom sy'n cael y fraint o wasanaethu Teyrnas yr Arglwydd Iesu. Wedi nodi nad yw'r fflam Olympaidd byth yn diffodd wrth iddi gael ei throsglwyddo i fan cynnal y gemau nesaf, dywed: 'Y mae'r fflam a gariwyd yn gryf a gwrol gan D. J. Evans, Capel Seion, yn chwilio am law newydd i'w chario. Pwy sy'n barod i ymafael ynddi? Pwy sy'n mynd i'w dwyn i gynnau eneidiau ledled Cymru? Camp nid bychan oedd ei chadw ynghynn am bum mlynedd a deugain – a hynny yn yr eglwys lle'i maged.

*W J Edwards*

## Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Croesawyd yr aelodau ar ddechrau tymor newydd brynhawn Mawrth, 11 Medi, gan Mai Leeding. Y wraig wadd oedd Shân Jones, Bont-goch, a bu'n sôn am ei gwaith fel podiatrydd, sef meddygaeth yn ymwneud â nam ar y traed. Bu'n gweithio ym maes *chiropody* ers iddi raddio chwarter canrif yn ôl, ac erbyn hyn mae'n gweithio fel podiatrydd yn y sector breifat ac wedi agor siop esgidiau Gwdihŵ yn Ffordd Portland, Aberystwyth. Talwyd y diolchiadau gan Eirlys Jones. Eiriona Metcalfe a Carys Briddon oedd yng ngofal y te.

## Taith Flynyddol Capel Rehoboth

Trefnwyd taith flynyddol Capel Rehoboth gan Brian a Beti Wyn Davies eleni, a dydd Sadwrn, 8 Medi, cawsom ein tywys i fannau o ddiddordeb yng ngwaelod sir Aberteifi a sir Gaerfyrddin. Wedi inni gwrdd â Gillian Jones, ein tywysydd am y dydd, ymwelwyd yn gyntaf â chapel Bethel yn Drefach lle roedd hi yn aelod. Yna ymlaen drwy Gwrtnewydd ac i eglwys hardd Llanwenog, lle cawsom amser i weld yr holl greiriau unigryw a hynafol sydd o fewn yr adeilad, a chopi o garreg ogam sydd yn y fynwent.

Yn y prynhawn aethom drwy goedwig Brechfa i Rydcymerau, a gweld bedd D. J. Williams yn y fynwent yno, a hefyd Abernant, ei hen gartref. Teithio wedyn i Dalyllychau i weld eglwys hynafol arall a chael hanes yr eglwys a'r abaty gan warden yr eglwys, cyn gweld bedd 'honedig' y bardd Dafydd ap Gwilym ym mynwent yr eglwys. Cawsom groeso cynnes a chwpanaid o de a bisgedi gan y warden a'i wraig yn eu cartref gyferbyn â'r abaty. Cyn gadael Talyllychau aethom i weld yr Hen Efail, sef gweithle Thomas Lewis, yr emynydd. Ar y ffordd yn ôl i Lanwnnen, cawsom ein croesawu i gartref Dylan Iorwerth a'i wraig, a chael y fraint o weld y gadair hardd a enillodd yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg eleni. Wedi diwrnod pleserus iawn, aethpwyd i westy'r Grannell yn Llanwnnen am bryd o fwyd ardderchog cyn troi am adref. Cyflwynodd John Leeding air o ddiolch i Brian, Beti Wyn a Gillian am drefnu'r cyfan ar ein cyfer.





Aelodau Rehoboth ger bedd 'honedig' Dafydd ap Gwilym yn Nhalyllychau

### *Elystan: Amrywiol Atgofion*

Fel rhan o Ŵyl Lyfrau'r Morlan, Aberystwyth, bydd Dylan Iorwerth yn holi'r Arglwydd Elystan-Morgan yn y Morlan nos Wener, 9 Tachwedd am 7.30 o'r gloch, i ddathlu cyhoeddi ei hunangofiant.

Pris tocyn: £5, a bydd darpariaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.

Bydd copïau o'r gyfrol, a gyhoeddir gan Wasg y Lolfa, Talybont, hefyd ar werth, pris £12.95



**CRISTNOGAETH21 ABERYSTWYTH**
**YN Y MORLAN**

*Yr ail a'r bedwaredd nos Fercher am 7.30 pm*

**10 Hydref**
Aled Edwards, Cyfarwyddwr CYTÛN,
yn sôn am ei waith gyda chymunedau aml-ffydd Caerdydd
Cymru Cornelius – Symud o 'gyfnod o newid' i 'newid cyfnod'

**24 Hydref**
Noson ysgrythur – Cynog Dafis

**14 Tachwedd**
Yr Athro Noel Lloyd

**28 Tachwedd**
Noson ysgrythur – Eddie Jenkins

**12 Rhagfyr**
Dr Rhidian Griffiths – Noson fyfyrgar o gerddoriaeth y Nadolig

*Croeso cynnes i bawb*

Cymdeithas y Penrhyn

Dilyn Ôl Troed T Ifor Rees – teithio yng Nghanolbarth America
gyda Leusa Llewelyn

Nos Fercher, 17 Hydref, am 7.30 pm, Festri Horeb, Penrhyn-coch

***Swyddogion yr Ofalaeth***
*Cadeirydd*: Mrs Marian B Hughes, 14 Maes y Garn, Bow St (01970 828662)
*Ysgrifennydd*: John Leeding, Glannant, Taliesin, Machynlleth, SY20 8JH;
glannant@googlemail.com (01970 832672)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **9 Rhagfyr:**

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
✆01970 828026
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
✆01970 828662
marian_hughes@btinternet.com